**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Tachwedd 25ain 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Elen H Edwards, Ian W Griffith

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Gwyn Williams, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Gwydion Jones, Cyng D O Roberts a'r Clerc.

47.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

47.2 HEDDWAS O SWYDDFA LLANRWST – anfonodd Ray Elliott ymddiheuriad na allai ddod i'r cyfarfod ond roedd wedi bod yn Llangernyw yn mesur cyflymder traffig ac wedi cael hyfforddiant gyda gwn cyflymder yn ddiweddar. PENDERFYNWYD i gadw mewn cysylltiad â'r Heddlu ynglŷn â goryrru drwy'r pentref.

47.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 4ydd Tachwedd 2015 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

47.4 MATERION YN CODI O'R COFNODION
47.4.1 TOILEDAU LLANGERNYW – cafwyd adroddiad gan Ann Vaughan bod y contractiwr yn brysur yn cwblhau'r gwaith.

47.4.2 PROSIECT HIRAETHOG – cafwyd ymateb gan Suryiah Evans yn nodi nad oedd arian ar ôl yn y prosiect i gynnwys panel gwybodaeth yng Ngwytherin gan fod y seddau a'r bwrdd wedi cymryd llawer o'r coffrau. Teimlwyd yn siomedig am hyn oherwydd pwysigrwydd Gwytherin ar lwybr y pererinion a PHENDERFYNWYD yn unfrydol i gysylltu eto a mynegi ein barn.

47.4.3 MAST PEN Y FRON – gan nad oedd ymateb wedi dod gan y cwmni PENDERFYNWYD cysylltu â Peter Williams, Rheolwr Perthnasau Technegol, Llywodraeth Cymru a fu mewn cyfarfod o'r Cyngor i drafod y prosiect ac i holi lle mae'r arian a glustnodwyd wedi mynd. Cyfeiriodd Cyng Dilwyn Roberts at y datblygiadau band llydan fydd yn dod i'r ardal yn fuan.

47.4.4 PLANNU BLODAU YN Y TYBIAU – cynigiodd Cyng Dilwyn Roberts holi Conwy os oedd ganddynt fwriad i blannu yn fuan a PHENDERFYNWYD i Ann Vaughan brynu blodau bach a'u plannu os oedd lle.

47.4.5 CANLYNIADAU CYNLLUNIO AR Y WEFAN cyf 46.7.4 – cafwyd cais gan Reolwr Rheoli Datblygu i wybod at ba gais cynllunio oeddem yn gyfeirio ato yn benodol. PENDERFYNWYD i enwi cais cynllunio diweddar Tyddyn Ucha 0/41919.

47.4.6 GWYBODAETH YCHWANEGOL YN DILYN GWNEUD PENDERFYNIAD AR GAIS – derbyniwyd ateb gan uwch swyddog cynllunio yn esbonio y bydd awdurdod yn gofyn am fwy o wybodaeth os bydd pryderon yn codi a theimlad nad yw cais yn gyflawn.

47.5 CŴN YN RHYDD AR DIR GER RHAN HIR LLANGERNYW – roedd swyddog o'r Adran Amgylchedd wedi cyfarfod perchennog Rhan Hir yn dilyn cwyn bod cerddwyr a chŵn yn crwydro o'r llwybr cyhoeddus. Teimlid bod diffyg arwyddion a PHENDERFYNWYD ceisio cael arwyddion 'Cadw cŵn ar dennyn' bob pen i'r llwybr.

47.6 BAGIAU HALEN – daeth llythyr arall ynglŷn â chynghorau cymuned yn cymryd cyfrifoldeb o storio a gwasgaru halen lle nad yw rhwydwaith y sir yn graeanu. PENDERFYNWYD i anfon yr un ateb â'r mis diwethaf sef y byddai'n ormod o risg i'w gymryd a phryder ynglŷn â gofynion yswiriant a bod y system blychau melyn, y contractiwr graeanu lleol a'r lori graeanu fawr yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

47.7 ARADR EIRA GWYTHERIN – derbyniwyd ateb yn dweud bod y tendr wedi ei roi i gontractiwr presennol gyda'r sir oherwydd ei arbenigedd a bod tendr wedi ei ymestyn yn hytrach na'i adnewyddu ac oherwydd cost posib o addasu offer ar gyfer contractiwr newydd. PENDERFYNWYD i ateb drwy ddweud bod yr aradr eira yn gulach nag arferol a bod y cyn-gontractiwr wrthi bob hanner awr tra roedd hi'n bwrw eira yn cadw'r ffyrdd i mewn i Wytherin yn agored. Teimlid yn gryf y dylid cadw'r aradr yng Ngwytherin ac roedd contractiwr o'r pentref yn barod i'w chymryd. Penderfynwyd i ofyn am gyfarfod safle os oedd raid. Pasiwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch at Mr Gwynfor Roberts i ddiolch iddo am ei waith gyda'r aradr eira dros y blynyddoedd.

47.8 CEISIADAU CYNLLUNIO
47.8.1 CAIS RHIF 0/42199 Ail-leoli'r corn simnai yn Ysgubor Penbryn, Gwytherin gan Mr J Carney – cefnogi'r cais yn unfrydol.
47.8.2 CAIS RHIF 0/42205 Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw'r balconi presennol ar y drychiad dwyreiniol yn 1 Tyddyn Uchaf Cottages, Llangernyw gan Mr David Hull – cefnogi'r cais yn unfrydol.
47.8.3 CAIS RHIF 0/42225 Estyniad i adeilad amaethyddol yn Hafod Lom, Llangernyw gan Mr Alwyn Evans – cefnogi'r cais yn unfrydol.

47.9 PEINTIO ARHOSFAN BWS – roedd yr Aelwyd yn awyddus i wneud cais am grant i beintio'r arhosfan a PHENDERFYNWYD gofyn iddynt wneud y ddau arhosfan yn y pentref ond oes oedd peth o'r gwaith yn rhy anodd iddynt ei adael.

47.10 BANC HSBC – derbyniwyd ateb i'n cwyn ynglŷn â diffyg gwasanaeth Cymraeg yn y banc ym Mae Colwyn ac yn ymddiheuro am y sefyllfa. Er nad oes staff Cymraeg ymhob cangen mae gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn ar gael ac anfonir gohebiaeth i'w gyfieithu yn ganolog. Cyfeiriwyd hefyd nad oedd neb yn siarad Cymraeg yn Swyddfa Trallwysiad Gwaed a bod diffyg staff yn siarad Cymraeg yn hyfforddi nofio ym Mhwll Nofio Abergele.

47.11 ARWEINIAD YNGLŶN Â RHANDIROEDD – cwrs ym Mae Colwyn – i'w anfon i'r aelodau ar ebost.
47.12 CWRS CÔD YMDDYGIAD – i'w anfon ar ebost i'r aelodau.
47.13 CYNLUN CHWARAE LLEOL – i'w basio i'r Bwrlwm Bro.
47.14 DEUD EICH DEUD AR BLISMONA YNG NGOGLEDD CYMRU – ar ebost i aelodau. Penderfynwyd i holi lle maent yn hysbysebu heblaw ar y wê.
47.15 CYNGOR AR BOPETH – pasiwyd i wahodd y Prif Weithredwr i siarad a'r Cyngor neu i gyfarfod agored.
47.16 GRANT PLANT MEWN ANGEN – ei roi yn y Cylchlythyr.

47.17 HOLIADUR YMUNO AWDURDODAU LLEOL A NEWYDDION LLYWODRAETH LEOL a MATERION UN LLAIS – i'r aelodau ar ebost.

47.18 MATERION LLEOL
47.18.1 Camfeydd newydd wedi eu gosod ar Lwybr Pererinion ond angen pont ar Afon Rhydlechog. Angen holi Cyngor Cymuned Llansannan os ydynt wedi derbyn cwyn gan fod yr afon yn ffinio'r ddau blwyf.
47.18.2 Dŵr yn llifo ar draws y ffordd ger Yr Ynys ac i lawr allt Capel Cefn Coch a ger sied Coed Digain
47.18.3 Angen torri eithin ar bedair croesffordd Cefn Castell i wella gweledіad.
47.18.4 Angen holi a oes cais cynllunio wedi ei gyflwyno gan Siop y Llan.
47.18.5 Dŵr rhwng Pont Faen a Phentre Wern a llawer o ddŵr ar A548 Llangernyw i Lanfair TH
47.18.6 Bws plant ysgol yn methu mynd trwy lyn o ddŵr ar ffordd Pen Llethr – fflat wedi tagu.
47.18.7 Angen clirio ochrau allt Ty'n Pistyll.
47.18.8 Llyn o ddŵr uwch i fyny na Rhos Mawn.

Cyfarfod nesaf : ddechrau Ionawr i drafod y Gyllideb.
Cyfarfod Cylchythyr: Nos Fawrth 8fed Rhagfyr

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y cofnodion D Gwynfor Davies Dyddiad 18/1/16……………*

Community Council Meeting was held on Wednesday, November 25th 2015 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Elen H. Edwards, Ian W Griffith

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Gwyn Williams, Ifor G Edwards, R Emlyn Williams, Gwydion Jones, Cllr DO Roberts and Clerk.

47.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

47.2 POLICE OFFICER FROM LLANRWST - Ray Elliott sent apology could not attend the meeting but had been to Llangernyw to measure traffic speeds and had been training with a speed gun recently. RESOLVED to keep in touch with the Police regarding speeding through the village.

47.3 MINUTES - looked at 4th November 2015 meeting minutes and RESOLVED unanimously that they were accurate.

47.4 MATTERS ARISING
47.4.1 LLANGERNYW TOILETS - it was reported by Ann Vaughan that the contractor is busy completing the work.

47.4.2 HIRAETHOG PROJECT – reply from Suryiah Evans indicated that there was not sufficient money left in the project to include an information panel at Gwytherin as the seat and the table had taken a lot of capital. Felt disappointed about this because of the importance of Gwytherin on the pilgrim route and RESOLVED unanimously to contact again and express our views.

47.4.3 PEN Y FRON MAST - as there was no response received from the company it was RESOLVED to contact Peter Williams, Technical Relationship Manager, Welsh Government who attended a meeting of the Council to discuss the project and to ask where the money earmarked had gone. Cllr Dilwyn Roberts referred to the development of broadband which will come to the area soon.

47.4.4 PLANTING FLOWERS IN THE TUBS - Cllr Dilwyn Roberts offered to ask Conwy if they had intended to plant soon and RESOLVED for Ann Vaughan to buy small flowers and plant them if there was space.

47.4.5 RESULTS ON PLANNING WEBSITE ref 46.7.4 - Development Control Manager requested to know which planning application we were referring to. RESOLVED to name Tyddyn Ucha recent planning application 0/41919.

47.4.6 ADDITIONAL INFORMATION FOLLOWING DECISION ON A PLANNING APPLICATION - senior planning officer explains the authority will ask for more information if concerns arise and feel that an application is not complete.

47.5 DOGS LOOSE ON LAND NEAR RHAN HIR LLANGERNYW - an officer of the Department of Environment has met owner of Rhan Hir following a complaint that pedestrians and dogs wandering from the public footpath. It was felt there was a lack of signage and RESOLVED to seek signs 'Keep dogs on a leash' at both ends of the route.

47.6 SALT BAGS - another letter received about community councils taking responsibility for storing and spreading salt where the county network does not cover. RESOLVED to send the same answer as last month that it would be too risky to take it and worry about insurance requirements and that the system of yellow boxes, the local contractor and the gritters gritting major routes works well at the moment.

47.7 GWYTHERIN SNOW PLOUGH – a reply was accepted saying that the tender had been awarded to an existing contractor with the county because of his experience and that the tender had been extended and not replaced and because of the potential cost of adapting equipment for a new contractor. RESOLVED to reply by saying that the snow plough is narrower than usual and that the ex-contractor would clear the snow every half hour while it was snowing in order to keep roads open into Gwytherin. The councilors felt strongly that the plough should be kept in Gwytherin and a contractor from the village was ready to tender for it. Decided to request a site meeting if necessary. Decided the Clerk sends a letter of thanks to Mr Gwynfor Roberts to thank him for his work with the snow plough over the years.

47.8 PLANNING APPLICATIONS
47.8.1 APPLICATION NUMBER 0/42199 Relocate the chimney in Ysgubor Penbryn, Gwytherin by Mr J Carney - supported the application unanimously.
47.8.2 APPLICATION NUMBER 0/42205 Retrospective application for the retention of

existing balcony on the east elevation at 1 Tyddyn Uchaf Cottages, Llangernyw by Mr David Hull - supported the application unanimously.
47.8.3 APPLICATION NUMBER 0/42225 Extension to agricultural building at Hafod Lom, Llangernyw by Mr Alwyn Evans - unanimously supported the application.

47.9 BUS STOP PAINTING - the Aelwyd wanted to apply for a grant to paint the stop and RESOLVED to ask them to do both bus stops in the village but if some of the work was too difficult for them they should leave it.

47.10 HSBC BANK - received reply to our complaint about lack of Welsh language service at the bank in Colwyn Bay and apologizing for the situation. Although there are no Welsh speaking staff in all branches of the bank a Welsh telephone service is available and correspondence will be sent for translation internally . Reference was also made that no one spoke Welsh in the Blood Transfusion Welsh Office and to lack of Welsh speaking swimming instructors at Abergele swimming pool.

47.11 GUIDANCE ON ALLOTMENTS - course at Colwyn Bay - to be sent to members by email.
47.12 CODE OF CONDUCT COURSE - to be sent by email to members.
47.13 LOCAL PLAY SCHEMES - to pass to Bwrlwm Bro.
47.14 HAVE YOUR SAY ON POLICING IN NORTH WALES - by email to members. We decided to ask where they advertise except on the internet.
47.15 ADVICE BUREAU - passed to invite the Chief Executive to speak to the Council or to an open meeting.
47.16 CHILDREN IN NEED GRANT - put it in the newsletter.
47.17 QUESTIONNAIRE RE JOINING LOCAL AUTHORITIES AND LOCAL GOVERNMENT NEWS and ONE VOICE ISSUES - members via email.

47.18 LOCAL ISSUES
47.18.1 New stiles have been placed, but need a bridge on Pilgrim Route over River Rhydlechog. Need to ask Llansannan Community Council if they have received a complaint regarding the river bordering the two parishes.
47.18.2 Water flows across the road near Yr Ynys and down Cefn Coch Chapel hill and adjacent Coed Digain
47.18.3 Need to cut gorse on four crossroads Cefn Castell to improve visibility.
47.18.4 Need to inquire whether a planning application has been submitted by the Village Shop.
47.18.5 Water between Bont Faen and Pentre Wern and a lot of water on A548 Llangernyw to Llanfair TH
47.18.6 School bus unable to go through a flood of water on Pen Llethr road - flat blocked.
47.18.7 Sides of road need sweeping on Tyn Pistyll hill.
47.18.8 Water staying on the road near Rhos Mawn.

Next meeting: in early January to discuss the Budget.
Newsletter meeting: Tuesday 8 December

The meeting came to a close at 9.20 pm.

The minutes were approved…D Gwynfor Davies ………Date..18/1/16